Cenn@d

GORFFENNAF 7 2021 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 19

Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru yn sefydlu Llywydd newydd

Ar 23 Mehefin, cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor am y tro cyntaf ers Tachwedd 2019 yn y Sanctuary, Pontypridd, er mwyn cael safle urddasol i sefydlu ein Llywydd newydd. Roedd y Llywydd presennol, Rheinallt Thomas; y Darpar Lywydd, y Parchedig Simon Walkling; a'r Ysgrifennydd, Helen Jones, yn bresennol ond ymunodd gweddill aelodau'r Cyngor yn rhithiol drwy gyfrwng Zoom.

Dechreuodd y cyfarfod drwy ddefosiwn o weddi gan y Llywydd, ac aed ymlaen i drafod Cofnodion 2019. Y prif bwynt angen sylw oedd ymateb i ddogfen ddrafft Gweinidogaeth Bro. Penderfynwyd bod angen ei diwygio, ei chyfieithu cyn ei gosod ar Agenda'r cyfarfod nesaf.

Cafwyd adroddiad gan y Llywydd, a mynegodd ei fod wedi mwynhau ei gyfnod o dair blynedd ynghyd â'r flwyddyn ychwanegol oherwydd y pandemig. Ei weledigaeth wrth gymryd at y llywyddiaeth oedd codi proffil y Cyngor. Cafwyd adroddiadau cyson ganddo yn y 'Pedair Tudalen' a'r *Gwyliedydd*. Roedd ystod y digwyddiadau'n dangos faint yr oedd proffil y Cyngor wedi codi a'i fod wedi cael cyfle i gydsefyll gyda dau Archesgob Cymru (Anglicanaidd a'r Eglwys Gatholig Rufeinig) mewn llawer digwyddiad, cyfarfod a gwasanaeth. Pwysleisiodd fod angen i bobl wybod am fodolaeth a gweithgareddau'r Cyngor. Bu'n rhan o Fforwm Ffydd y Llywodraeth gyda'r Eglwys yng Nghymru, yr Eglwys Gatholig Rufeinig a chrefyddau arall.

Dywedodd y Llywydd ei fod yn ddiolchgar iawn am y cydweithio rhwng y Cyngor a Cytûn, yn arbennig am gymorth wrth sefydlu gwefan y Cyngor. Cafwyd adroddiad gan Gethin Rhys ar waith Cytûn. Gwerthfawrogwyd y bwletinau polisi chwarterol yn ogystal â'r adroddiadau cyson ar ddatganiadau Llywodraeth Cymru a'u heffaith ar eglwysi dros gyfnod y pandemig.

Derbyniwyd adroddiad Addysg gan Vaughan Salisbury. Tynnodd sylw at Ddogfen Ymgynghorol Canllawiau Cwricwlwm i Gymru – Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Bydd dyddiad cau'r ymgynghoriad ar **16 Gorffennaf**, gan ychwanegu ei bod yn bwysig i eglwysi, enwadau ac unigolion roi eu barn, yn ogystal â'r Cyngor. Dywedodd Vaughan fod sicrhau aelodaeth enwadol ar y Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAGau) a chynrychiolaeth o'r Eglwysi Rhyddion ar y Cynghorau Sir yn bwysig. Pwysleisiodd fod rôl gan aelodau CYSAG i fynychu cyfarfodydd ac oherwydd eu dylanwad cadwyd Cristnogaeth fel y brif grefydd, serch bod rhai yn y Cynghorau am ei dileu o'r ddogfen Deddf Addysg.

Derbyniwyd adroddiadau o'r gwahanol enwadau, ac roedd yn amlwg fod y pandemig wedi achosi anawsterau. Er hynny, bu eglwysi'n cynnal gwasanaethau yn rhithiol ac yn darganfod ffyrdd newydd i gyhoeddi neges yr Efengyl.

Derbyniwyd cyfarchion gan y Grŵp Eglwysi Rhyddion yn Llundain a gwerthfawrogwyd y cydweithio rhwng y ddau Gyngor.

O'r chwith i'r dde: Mrs Helen Jones, Ysgrifennydd y Cyngor; Y Parch Simon Walkling, y Llywydd newydd; a Mr Rheinallt Thomas, y Cyn-lywydd.

Gwasanaeth sefydlu ac arwisgo Llywydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru

Dechreuodd y gwasanaeth drwy air o weddi gan y Llywydd, Rheinallt Thomas. Darllenwyd rhan o'r ysgrythur, Rhufeiniaid 12:3–13, gan Helen Jones, yr Ysgrifennydd, ac offrymwyd gweddi gan y Cyn-lywydd, y Parchedig Peter Dewi Richards.

Gwnaeth Rheinallt Thomas ddatganiad o bwrpas y gwasanaeth, sef sefydlu'r Parchedig Simon Walkling yn Llywydd y Cyngor am y tair blynedd nesaf. Wedi cadarnhau ei benodiad, arwisgwyd ef â gŵn a chadwyn ei swydd, a throsglwyddwyd y Llywyddiaeth i'r Darpar Lywydd.

Ar ôl y weddi sefydlu, cyflwynodd Simon ei ddiolch i Rheinallt am bopeth yr oedd wedi'i ddwyn i rôl y Llywydd. Dywedodd fod Rheinallt wedi dod â phrofiad ym myd addysg a bywyd capel gyda chyfaredd, argyhoeddiad a gwên. Diolchodd yn arbennig iddo am wasanaethu am flwyddyn ychwanegol drwy cyfyngiadau'r pandemig, pan oedd nifer y cyfarfodydd eciwmenaidd wedi lleihau ond fod y cyswllt â Llywodraeth Cymru wedi cynyddu.

Nododd Simon fod y darlleniad yn Rhufeiniaid 12 yn defnyddio delwedd corff Crist. Dywedodd fod delwedd Iesu fel y winwydden a ninnau fel y canghennau hefyd yn mynegi ein hundod yng Nghrist er mwyn dwyn ffrwyth i eraill. Soniodd am waith pwysig y Cyngor wrth fynegi llais anghydffurfiol, yn enwedig ym meysydd caplaniaeth, addysg a datblygiad ysbrydol.

Diolchodd i'r aelodau am roi eu hymddiriedaeth ynddo a'i obaith yw y bydd yn gynrychiolydd effeithiol ar eu rhan. Gofynnodd am eu harweiniad wrth ddarganfod sut roedd y Cyngor yn ffitio i mewn gyda grwpiau eciwmenaidd eraill a sut roedd capeli lleol yn cysylltu â'n gwaith. Awgrymodd y gallem ddysgu oddi wrth ein gilydd am addoliad a bod yn ddisgyblion wrth archwilio posibiliadau o weithio'n eciwmenaidd yn rhithiol.

Helen M Jones
Ysgrifennydd

O'r Llwyfan
Sul yr Hinsawdd
Tudalen 3

Sylw o'r seidin
'Adnewydda fy eglwys'
Tudalen 4

Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru: sylwadau Rheinallt Thomas wrth drosglwyddo'r llywyddiaeth
Tudalen 7

Coffáu canmlwyddiant geni R Tudur Jones yn Nhyddyn Gwyn, Rhos-lan

Wrth ddrws Tyddyn Gwyn, Rhos-lan, mae cofeb ar y mur i nodi mai:

Yma y ganwyd
Robert Tudur Jones,
1921–1998
Prifathro Coleg Bala Bangor.
Pregethwr, Athro, Ysgolhaig.
Gwas y Gair, Gwron Cenedl.

A dydd Llun, 28 Mehefin, daeth tua 30 o bobl ynghyd i Dyddyn Gwyn (drwy garedigrwydd Dora Jones a'r teulu) i nodi canmlwyddiant ei eni.

Llio, gorwyres Dr Tudur, yn gosod basgedaid o flodau o flaen y garreg goffa, yng nghwmni aelodau'r teulu

Croesawyd pawb yno gan y llywydd, Dafydd Roberts. Roedd nifer dda o deulu'r Dr Tudur yn bresennol ac anfonwyd cofion y cyfarfod at y rhai oedd yn methu bod yno, yn arbennig felly ei frawd, John Ifor Jones, Penrhyn-coch.

Roedd gwreiddiau Dr Tudur yn ddwfn yn y fro, gyda theulu'i dad yn hanu o Chwilog a theulu'i fam o Dyddyn Gwyn. Oherwydd gwaith y tad ar y relwê, roedd y teulu'n byw yn y Rhyl ond daeth ei fam adref i eni ei phlentyn cyntaf. Ymfalchïai Dr Tudur yn ei wreiddiau a deuai'n gyson ar wyliau o'r Rhyl at ei daid a'i nain i Dyddyn Gwyn. Dyma Robin y Rhyl, y sonia J G Williams amdano yn ei lyfr *Pigau'r Sêr* oedd yn 'un da am chwarae ffwtbol a chricet a phethau felly'. Parhaodd ei gysylltiad â Thyddyn Gwyn hyd ddiwedd ei oes oherwydd ei gyfeillgarwch ef a Gwenllian, ei briod, â Wil Sam a Dora.

Noddwyd y cyfarfod gan Gyfundeb Annibynwyr Llŷn ac Eifionydd a chymerwyd rhan gan y tri gweinidog sydd â gofal eglwysi o fewn y Cyfundeb. Darllenwyd adnodau o'r ail bennod o lythyr Paul at yr Effesiaid gan y Parch Glenys Jones, Pwllheli. Dyma un o hoff benodau Dr Tudur, ac yr oedd ganddo bregeth ar ddau air ohoni – 'Eithr Duw' – a fu'n fawr ei dylanwad.

Geraint a Carolyn Tudur yn cyflwyno tusw o flodau i Dora Jones, yng nghwmni Mair Parry

Galw i gof y cyfarfod a fu ym mis Mehefin 2000 i ddadorchuddio'r plac wnaeth y Parch Iwan Llewelyn Jones, Borth-y-gest. Y siaradwyr y pryd hwnnw oedd Dafydd Iwan, a soniai am gyfraniad gwleidyddol Dr Tudur; ei weinidog am flynyddoedd yn Eglwys Annibynnol Bangor, y Parch John Gwilym Jones, yn sôn am ei ysgolheictod. Yna'r Parch Robin Williams, Rhos-lan, yn ei osod ymhlith y mwyaf o enwogion y fro gyda mwy nag un Robert yn eu plith: Robert Williams (Betws Fawr) sy'n fwy cyfarwydd wrth ei enw barddol, Robert ap Gwilym Ddu, a Robert Jones (Rhos-lan).

I gloi, darllenodd Iwan ran o gywydd John Gwilym Jones i'r Dr Tudur. Nododd Iwan hefyd ddwy ffaith ddiddorol: yn ychwanegol at ddylanwad ei dad, y Parch Gwyn Jones, gwrando pregeth gan Dr Tudur yng Nghapel Coffa, Cyffordd Llandudno, fu'n ysgogiad iddo'i gyflwyno'i hun i'r weinidogaeth Gristnogol ac mai ef oedd yr olaf i'r Dr Tudur ei ordeinio i'r gwaith hwnnw, a hynny yn Rhyd-y-main yn 1987.

Offrymwyd gweddi o ddiolchgarwch gan y Parch Aled Davies, Chwilog – yntau'n perthyn i deulu'r Tuduriaid drwy ei wraig, Delyth. Mewn gweddi ddwys, mynegodd deimladau pawb oedd yno o ddiolchgarwch dwfn am fywyd a gwaith Dr Tudur. Fe gyfeiriodd yntau, fel Iwan, at ofal mawr Dr Tudur a'i briod, Gwenllian, ohonynt yn fyfyrwyr diwinyddol ym Mangor.

Yn ystod y cyfarfod, gosodwyd blodau wrth ddrws Tyddyn Gwyn gan ŵyr a gorwyres Dr Tudur, y Parch Ddr Rhodri Glyn, Llansannan, a'i ferch, Llio, ac fe safodd y gynulleidfa mewn munud o ddistawrwydd.

Diolchwyd i bawb gan y Llywydd. Mynegwyd gwerthfawrogiad y teulu gan y Parch Ddr Geraint Tudur, Bangor, a chyflwynodd dusw o flodau i Dora Jones, Tyddyn Gwyn yn arwydd o ddiolchgarwch am groeso cynnes ar yr hen aelwyd ganddi hi a'i merch, Mair, a'i phriod hithau, Richard. Wedi i Geraint draddodi'r fendith, cafwyd paned a chacen cyn i bawb droi am adref wedi pnawn bendithiol.

Gellir gwylio recordiad o'r cyfarfod ar YouTube.

Gyda'r nos, dros Zoom, traddodwyd darlith Cymdeithas Hanes yr Annibynwyr, 'Y Gair a'r Genedl – Cofio Dr R Tudur Jones' gan y Parch Ddr D Densil Morgan, Llanbedr Pont Steffan. I'r sawl sydd â diddordeb, mae'r ddarlith honno wedi'i chynnwys yn rhifyn mis Gorffennaf o'r *Traethodydd*.

Dafydd Roberts
Trefor

O'r Llwyfan

Sul yr Hinsawdd

A hithau'n flwyddyn cynnal y gynhadledd COP 26 yn Glasgow, priodol iawn oedd testun Darlith Goffa y Parchedig Gethin Abraham-Williams a draddodwyd gan y Parchedig Gethin Rhys, Swyddog Polisi Cytûn, nos Iau, 20 Mai. Teitl y ddarlith oedd 'Diwedd y Byd? Apocalypteg Gristnogol ac ymatebion i newid hinsawdd'. Diolch i Gethin am ddarlith hynod ddifyr a threiddgar a'r modd y bu iddo ystyried iaith apocalypteg Gristnogol yng nghyd-destun yr argyfwng hinsawdd. Mae'r ddarlith ar gael ar wefan Cytûn, ac os nad ydych eisoes wedi'i chlywed mae'n werth gwrando ar y recordiad (yn Saesneg) neu ddarllen y testun llawn yn Gymraeg.

Ym mis Tachwedd y cynhelir Cynhadledd COP 26 pan fydd y rhan fwyaf o arweinwyr y byd yn ymgynnull i ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd ac yn ceisio cyflymu'r gwaith o gyrraedd targedau Cytundeb Paris a gytunwyd yn 2015. Mae'r agenda yn heriol, ac i'r perwyl hwn mae angen inni fel eglwysi bwyso ar y llywodraethau unigol er mwyn iddynt arafu a dileu'r niwed a wneir i'r amgylchedd. Fel Cristnogion, credwn mai Duw a greodd y blaned hon a'n dyletswydd a'n cyfrifoldeb yw gofalu amdani ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yn ddi-os mae nifer o'n heglwysi yn effro i'r problemau sydd yn codi o ganlyniad i newid hinsawdd ac eisoes maent wedi gweithredu yn ymarferol i wneud eu rhan yn y frwydr hon. Ond a yw hyn yn wir am bob eglwys? Mae'n siŵr bod y pandemig wedi rhwystro llawer rhag sicrhau dyfodol glanach, gwyrddach a mwy cyfiawn. Ond yn ystod yr wythnosau nesaf mae yna gyfle inni weithredu ac i godi llais er mwyn annog y rhai a fydd yn bresennol yng nghynhadledd COP 26 i bennu targedau uchelgeisiol er mwyn diogelu'r greadigaeth a bywydau pobl.

Felly, beth ellir ei wneud?

Yn y lle cyntaf, ewch i wefan Cytûn ac i'r adran 'Sul yr Hinsawdd'. Yno, fe ddewch o hyd i adnoddau a baratowyd gan sawl enwad ar gyfer cynnal oedfa Sul yr Hinsawdd. Mae hon yn fenter a drefnwyd gan Rwydwaith Materion Amgylcheddol Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, ac mae'n dwyn ynghyd y mwyafrif o enwadau a mudiadau sydd yn

ymwneud â'r amgylchedd, argyfyngau a gwaith datblygu. Mae enwau megis Cymorth Cristnogol a Cytûn i'w gweld yn amlwg ar y wefan.

Defnyddiwch yr adnoddau yma er mwyn llunio a threfnu oedfa, gan ymrwymo fel eglwys i weithredu'n hirdymor i leihau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr. Hynny yw, cymerwch gamau penodol fel unigolion ac eglwysi lleol.

Ond fe fydd angen gwneud mwy na hynny! Rhaid sicrhau y bydd y llywodraeth yn ein galluogi i feithrin ffyrdd o fyw sydd yn fwy caredig i'r amgylchedd ac yn rhwystro'r cynnydd yn nhymheredd y byd. Felly cysylltwch â gwleidyddion eich Cyngor lleol, Senedd Cymru a Senedd San Steffan i fynegi eich consýrn am yr argyfwng gan bwyso arnynt i weithredu'n eofn.

At hynny, cofiwch gofrestru eich oedfa a'ch ymrwymiadau gyda 'Sul yr Hinsawdd'. Yna, ddydd Sul, 5 Medi 2021 bwriedir cynnal digwyddiad cenedlaethol pan fydd yr holl ymrwymiadau a wnaed gan yr eglwysi ar draws Prydain yn cael eu cyflwyno i'r Llywodraeth er mwyn eu hannog i weithredu ar frys.

Gobeithio'n fawr y byddwn yn gweld y ffordd yn glir i wneud ein rhan.

Nid opsiwn yw hyn i eglwysi'r unfed ganrif ar hugain ond rheidrwydd cenhadol!

Judith Morris
Ysgrifennydd Cyffredinol
Undeb Bedyddwyr Cymru

Fel y man lle cychwynnodd ein heglwys, mae Coleg Trefeca yn hyrwyddo lles ysbrydol aelodau Eglwys Bresbyteraidd Cymru a Christnogion o enwadau a thraddodiadau eraill, trwy weddi, myfyrio, addysg a thrafodaeth.

Yn ddiweddar lansiwyd ein Tudalen Facebook, ac o'r 6ed o Orffennaf, byddwn yn cyhoeddi Gweddi Wythnosol bob dydd Mawrth. Gallant fod ar ffurf gweddi, darn o'r Beibl, myfyrdod, llun neu gyfuniad o'r 4.

Cadwch lygad allan amdano ar Facebook, a gadewch i ni wybod a hoffech chi gyfrannu mewn rhyw ffordd. Byddem yn croesawu gweddi gan unrhyw un o'n Gweinidogion, Blaenoriaid, Aelodau neu'r gymuned Gristnogol ehangach.

Jenny Garrard
jenny.garrard@ebcpcw.cymru

Sylw o'r seidin

'Adnewydda fy eglwys'

Ydych chi'n gwybod beth mae Duw ei eisiau, yn gweld bod hynny'n dda ac yn ei blesio, ac mai dyna'r peth iawn i chi ei wneud?

Mi fydda i'n meddwl weithiau fod yr eglwys gyfoes yn galw am adnewyddiad llwyr erbyn hyn.

Heriau heddiw

Rydym wedi byw drwy gyfnodau digon anodd dros y blynyddoedd, ac eto mae'r deunaw mis diwethaf wedi bod yn rhai heriol tu hwnt. Mae'r pandemig wedi taro pobloedd daear yn ddisymwth, a gadawyd yr eglwys hithau'n sbrintio i geisio ffyrdd newydd o gyflwyno'r Efengyl i gynulleidfa rithiol a thrwy fyrdd o gyfryngau cymdeithasol eraill.

Ydyn, rydyn ni'n stryglo, ac yn mynd i wneud hynny fwyfwy yn ystod y blynyddoedd nesaf yma yn dilyn COVID-19.

I ganol byd felly rydym ni am droedio y tro hwn, a gwneud hynny gan ddiolch i Dduw am ei eglwys, sydd hefyd yn eglwys i ninnau. Rydym am ddiolch i Dduw am yr hyn y mae'r eglwys yn sefyll drosto yn y gymuned ac ar lwyfan byd-eang. Rydym yn llawenhau ym mhob cyfle a gawn i gefnogi achosion dyngarol, a chynnal y weinidogaeth, er mwyn inni lwyddo yn ein bwriadau da a bod yn dystion gwir i Grist.

Cydymffurfio neu adnewyddu

Mae Rhufeiniaid 12 yn agor y seiat yn daclus iawn drwy ddarlunio gwir natur yr ymdrech a'r dewis a wynebwn.

Dywedir wrthym: cydymffurfiwch â'r byd hwn, neu newidiwch er gwell drwy geisio gwybod beth yw ewyllys Duw i'w eglwys. Rydym yn byw mewn oes sydd yn dyrchafu ac yn clodfori popeth corfforol a nwydol, wrth anwybyddu popeth 'ysbrydol'.

Tybed beth ddaw o'r eglwys y buon ni'n mor gyfarwydd â hi cyn y pandemig? Beth fydd yr eglwys wedi'r pandemig? Beth allen ni ei wneud â hi yn wyneb nifer o gyfyngiadau fydd yn debyg o barhau? Beth wnawn ni â hi pan sylweddolwn na fydd amryw o'r ffyddloniaid hŷn yn barod i ddychwelyd i gydaddoli mewn adeiladau sydd wedi bod ar gau er dros flwyddyn?

Bydd yna ddigon o bobl fydd yn barod i'w beirniadu, i ymosod arni, ei hesgeuluso neu ei gadael.



Ond wela i ddim tystiolaeth yn y Testament Newydd fod Iesu wedi gwneud hynny erioed, waeth pa mor anodd a dyrys oedd pethau ar y pryd.

Beth wnawn ni â hi, tybed? Ai dychwelyd er mwyn cynnal yr hen drefn ochr yn ochr â threfn wahanol a newydd a ffres o gynnal oedfa a gweithgarwch, ynteu ddechrau o'r dechrau wrth ein traed? Sut fyddwn ni am ymateb i her byd a bro, i grefydda na all aros yr un fath byth mwy wedi hyn? Oes gynnoch chi ateb i'r pethau hyn?

Ychydig ddyddiau yn ôl cefais ymuno â chriw o gerddwyr ar daith i ymweld â Gwaun-cwm-brwynog a safle hen gapel Hebron, y clywsoch fi'n sôn amdano yn ddiweddar.

Wrth sefyll ar ben yr hen barwydydd oedd wedi hen ddymchwel erbyn hyn, meddyliais am yr eglwys hithau heddiw. Ac onid gweddi Sant Ffransis o Asisi, pan benliniodd ym murddun Eglwys Sant Damiano, ddylai fod yn weddi i ninnau heddiw: 'Adnewydda fy eglwys'?

Eisteddais yno yn niwloedd y glaw mân a cheisio clustfeinio am ryw achlust o'r gogoniant a fu mewn lle'r oeddwn yn ei gofio'n dda yn blentyn a fagwyd ar lethrau'r Wyddfa fawr. Gogoniant addoliad, canu mawl a phregethu grymus – bron na allwn i rith glywed y cyfan ar adain y gwynt. Murddun yn ysgogi myfyrdod, a chysgodion addolwyr yn ysgogi addasu, ac arloesi dan arweiniad yr Ysbryd.

Oes, y mae gennym anawsterau i'w hwynebu, ond nid ydym heb obaith. Mae ein dyddiau wedi eu rhifo wrth inni geisio rhag-weld sut y bydd hi arnom ni yfory, y Sul nesaf a'r gaeaf nesaf. Bydd yn rhaid wynebu'r her i fod yn fwy creadigol ac arloesol, a cheisio llwybrau newydd a ffres i gyflwyno'r Efengyl, fel y gwnaethom eisoes yng nghyfnod COVID-19.

Ydyn ni wir yn gwybod beth y mae Duw eisiau go iawn, ynteu jest meddwl hynny ydyn ni? Gobeithio nad ydyn ni'n mygu'r Ysbryd yn ein hymdrechion i oroesi. Well gen i ymwneud ag adnewyddu pethau – ches i mo 'ngalw i weinyddu yn angladd yr Achos, a wnaeth Duw mo'n siomi hyd yma. Beth amdanoch chi?

'Dewch inni daer weddïo gweddi Sant Ffransis: 'Adnewydda dy eglwys', a chredu fod Duw eisoes ar y blaen inni yn arwain y ffordd i'r yfory newydd.

Jim Clarke
Llanfair-pwll

Cyflwyno cyfrol

Gwelir yma Theo Davies-Lewis, Llanelli, yn cyflwyno ar ran Cyhoeddiadau Modern gyfrol o waith Dr D Ben Rees am Jim Griffiths i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Simon Hart, yn Gwydir House, Whitehall

Croeso i Gymdeithasfa'r Gogledd

Braint ac anrhydedd yw cael eich croesawu i Gymdeithasfa'r Gogledd ar ran Henaduriaeth Gorllewin Gwynedd. Bydd yn cael ei chynnal yng Nghapel y Traeth, Cricieth, ar 13 Gorffennaf 2021.

Roedd y trefniadau i gyd yn eu lle i'ch croesawu atom ym mis Ebrill 2020, ond nid oedd hynny i fod. Yn anffodus, mae'r croeso'n wahanol y tro yma gan nad ydym yn gallu cyfarfod wyneb yn wyneb, ond gallaf eich sicrhau fod y croeso yr un mor gynnes.

Mae hi'n siom na chewch weld hyfrydwch yr ardal yma ac ymweld a phrofi cyfeillgarwch Capel y Traeth. Ond diolch yw ein cân am y dechnoleg fodern yma fydd yn hwyluso ein trafodaethau a'n penderfyniadau.

Diolch i'r Ysgrifennydd, y Parchedig Ddr Elwyn Richards, am ei baratoadau manwl, ynghyd â Hedd Morgan a Joanna Thomas-Wright, sydd mor barod i gynorthwyo gyda'r ochor dechnegol.

Hoffwn ddymuno pob bendith i'r Llywydd presennol, Mrs Cynthia Owen, ac edrychwn ymlaen at ei neges yn ei haraith ymadawol. Diolch iddi am arweiniad doeth bob amser.

Dymunwn fendith Duw ar ein darpar Lywydd, y Parchedig Eric Greene, hefyd pan fydd ef yn cymryd at yr awenau yng nghyfarfod yr hwyr.

Ynghlwm â'r croeso, hoffwn ddefnyddio byrdwn o emyn cyfoethog y diweddar Aled Lloyd Davies yn y gobaith a'r dyhead y daw'r chwa, yr awel, gwefr y gwynt a'r nerthol gorwynt o Galfarî i ennyn fflam ein ffydd, i'n harwain, a'n hysgwyd, a'n deffro, a'n herio yn y Gymdeithasfa wahanol yma.

Llun: britishlistedbuildings.co.uk

Dowch yn rhithiol i'r Gymdeithasfa yn y Gogledd gan weddïo y bydd bendith Duw ar ein cyfarfyddiad, ein penderfyniadau a'n holl weithgaredd.

Mae croeso cynnes i bob un ymuno yn ein cyfarfod cyhoeddus am 6 yr hwyr. Dilynwch y ddolen am ragor o wybodaeth am sut i ymuno:
https://www.ebcpcw.cymru/cy/sasiwn-y-gogledd/

Meinir Lloyd Jones
Ysgrifenyddes Henaduriaeth Gorllewin Gwynedd

Fy 'ymweliad' â Genefa

Ddechrau Mehefin, fe fues i mewn cynhadledd yn Bossey, y tu allan i Genefa. Fe ofynnodd rhai pobl i mi am hunanynysu ac ati. Wel, doedd dim angen, gan mai'r unig deithio oedd dringo'r grisiau i'r stydi! Roeddwn i yno ar gyfer cynhadledd ryngwladol ar y pwnc 'Dysgu Eciwmeniaeth yng nghyd-destun Cristnogaeth Fyd-eang'. Trefnwyd y gynhadledd ar y cyd gan Sefydliad Eciwmenaidd Bossey a Chyngor Eglwysi'r Byd.



Roedd yn gynhadledd dros dridiau a ddygodd tua 150 o academyddion ac eraill at ei gilydd. Roeddwn i yno gan i mi ddysgu'r pwnc yng Ngholeg y Drindod ac ym Mhrifysgol Caerdydd, a gan i mi ysgrifennu (gyda chyfaill) un o'r llyfrau cyntaf yn y maes i fyfyrwyr (yn 2008).

Pennaf consýrn y gynhadledd oedd ystyried y modd y mae newidiadau



yn sefyllfa eglwysi ar draws y byd yn effeithio ar eu bywyd a'u cenhadaeth, yn fwyaf arbennig yn y sefyllfa leol, a'r her eciwmenaidd gyfoes wrth ddysgu myfyrwyr ac eraill. Fe wnaethon ni feddwl am COVID-19 a'i effeithiau. Ac fe fuon ni'n trafod goblygiadau 'Mae bywydau du yn bwysig'. Buom yn archwilio effeithiau hanes trefedigaethol (coloneiddio) mewn gwledydd ledled y byd ar y ffordd y mae eglwysi yn eu gweld eu hunain. Ac fe wnaethon ni fyfyrio ar arwyddocâd cynyddol cymunedau ffydd eraill (Mwslim, Bwdhaidd, Hindŵ ac ati) ar fywyd a chenhadaeth yr eglwysi ledled y byd.

Fe wnaethon ni hefyd dreulio llawer o amser yn meddwl sut mae ffocws Cristnogaeth bellach wedi symud o ogledd a gorllewin y byd (Ewrop ac America, ac ati) i gyfandiroedd y De (Affrica, America Ladin ac Asia). Mae twf Cristnogaeth yn yr ardaloedd hynny wedi newid natur Cristnogaeth a bywyd yr eglwysi mewn ffyrdd heriol a pharhaol.

Ni allwn bellach ddeall bywyd cyfoes yr eglwysi yn llawn na dysgu myfyrwyr ac eraill am heriau eciwmenaidd a chenhadol heddiw heb fod yn ymwybodol o'r newidiadau hyn. Roedd yn achlysur heriol a diddorol a osododd bawb ohonom ar daith ddysgu gyffrous! Sut y gallwn ni ddysgu ein gilydd am hyn oll yma yng Nghymru ac ymhlith yr Annibynwyr a'r eglwysi a'r enwadau eraill? Pe bawn i ddim ond yn dal i ddysgu eciwmeniaeth!

Noel Davies

Yr Ysbryd Glân 2 – R Tudur Jones
Ffrwyth yr Ysbryd – Caru Duw

Dros yr haf fe fyddwn yn cyflwyno penodau o glasur R Tudur Jones, *Yr Ysbryd Glân*, a fu'n llyfr gosod i ddosbarthiadau oedolion yr Ysgol Sul ar gyfer 1972.

Gwaith arhosol yr Ysbryd Glân yw meithrin cariad. Gwaith a ddaw i ben ryw ddydd yw achub oddi wrth bechod. Unwaith y bydd pechod yn darfod, y gwaith sy'n aros yw cynnal cariad.

Gesyd Paul gariad yn gyntaf wrth restru naw ffrwyth yr Ysbryd (Galatiaid 5:22). Adleisio y mae ddysgeidiaeth Iesu Grist am flaenoriaeth cariad (Marc 12:30–1; Ioan 15:12). Wrth roi ei ddyfarniad ar y gorchymyn cyntaf, gwahaniaethodd Iesu Grist rhwng dwy agwedd ar garu: 'A chân yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl ac â'th holl nerth. Hwn yw y gorchymyn cyntaf.' (Marc 12:30 = Mathew 22:37 = Luc 10:27) Gan fod tuedd amlwg wedi bod yn ein plith ers blynyddoedd i roi'r pwyslais bron yn gyfan gwbl ar garu dyn, dylem sylwi fod Iesu Grist yn gwahaniaethu'n ddiamwys hollol rhwng caru Duw a charu dyn, a'i fod yn mynnu mai caru Duw yw'r gorchymyn cyntaf. Ystumio dysgeidiaeth yr Arglwydd Iesu yw ei hesbonio yn y fath ffordd fel bod 'caru Duw' yn mynd yn enw arall ar 'garu dyn'. Nid y lleiaf o beryglon siarad felly yw diorseddu Duw a dwyfoli dyn.

Nid yw caru Duw'n beth naturiol i ddyn yn ei bechod. Yn ôl Efengyl Ioan yr oedd Iesu Grist wedi rhybuddio ei ddisgyblion rhag y rhai sy'n casáu'r Tad (Ioan 15:18–25). Ac y mae eu casineb at y goleuni (Ioan 3:20) yn gasineb at Iesu Grist (Ioan 7:7) ac at ei ddisgyblion (Ioan 15:19). Mynegwyd y casineb hwn ar ei ffurf fwyaf eithafol yn y croeshoelio.

Gan fod dynion ohonynt eu hunain yn elynion Duw, mae'r gorchymyn i'w garu'n disgyn ar glustiau byddar. Gofynnir yr amhosibl gan ddynion wrth eu gorchymyn i'w garu. Ond fe ddaw'r amhosibl yn bosibl oherwydd cariad Duw tuag at ddynion: 'Yn hyn y mae cariad; nid am i ni garu Duw, ond am iddo ef ein caru ni, ac anfon ei Fab i fod yn iawn dros ein pechodau' (1 Ioan 4:10). Ac felly, 'Yr ydym ni yn ei garu ef, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni' (1 Ioan 4:19). Ac fel y gwelsom, yr Ysbryd Glân sy'n sicrhau ein bod ni mewn cyflwr i allu ymateb i gariad Duw.

Beth sy'n oblygedig mewn 'caru Duw'?

Yn ôl Marc 12:30, y mae'n golygu ymateb llwyr y dyn cyfan i gariad blaenorol Duw. Y mae'n ffynhonni o eigion personoliaeth dyn ac yn lliwio pob gweithgarwch a chynneddf. Nid yw dyn yn caru Duw oherwydd bod hynny'n fantais iddo ef ei hun. Nid yw hyd yn oed yn caru Duw er mwyn achub ei enaid. Gan fod yr enaid yn caru Duw'n gyfan, nid oes le ynddo i hunangariad o unrhyw fath. Oherwydd hyn mae'r cariad Cristnogol yn rhywbeth hollol arbennig. Y mae cariad sy'n cynnwys elfennau o hunan-gais ac y mae cariad sy'n gynnyrch gweithgarwch yr Ysbryd Glân. Mewn Groeg gellid gwahaniaethu rhyngddynt trwy alw'r cariad hunanol yn *eros* a'r cariad sydd o Dduw yn *agape*. Ni fyddai'n gwbl anaddas inni enwi'r naill yn Gymraeg yn 'serch' a chadw 'cariad' am y tro ar gyfer y llall.

Rhaid cydnabod fod caru Duw'n perthyn yn agos i 'ffydd'. Gormod efallai yw dweud (gyda diwinyddion fel Anders Nygren) fod Paul yn defnyddio'r gair 'ffydd' yn fwriadol lle byddai'r Efengylau yn defnyddio 'cariad'. Ond y mae arfer yr Apostol yn help inni weld fod caru Duw'n golygu ymddiriedaeth unplyg ynddo: 'Am hynny meddaf i chwi, Na ofelwch am eich bywyd, pa beth a fwytaoch, neu pa beth a yfoch' (Mathew 6:25–34). Ni ellir caru Duw heb fwrw ein holl ofal arno.

Mae cariad Duw'n gariad sanctaidd. Prin y gellid sôn am Dduw'n caru oni bai ei fod hefyd fel tân ysol yn ei wrthwynebiad i bechod. Mae'n dilyn wedyn fod y sawl sy'n caru Duw yn gorfoleddu yn ei sancteiddrwydd. I'r sawl sy'n casáu Duw, y mae sancteiddrwydd yn arswyd ac yn farn. I'w garedigion, sancteiddrwydd Duw yw'r sicrwydd na all neb na dim ei ddiorseddu. A dyna pam y mae caru Duw'n esgor ar barch dwfn at ei drefn: 'Canys hyn yw cariad Duw: bod i ni gadw ei orchymynion: a'i orchymynion nid ydynt drymion' (1 Ioan 5:3). Ac y mae hyn yn cydio wrth un o themâu mawr yr Hen Destament, 'Câr dithau yr Arglwydd dy Dduw, a chadw ei gadwraeth ef, a'i ddeddfau, a'i farnedigaethau, a'i orchymynion, byth' (Deuteronomium 11:1). Ac yn llyfr Deuteronomium y dysgwn hefyd fod caru Duw'n golygu cofio: 'cofia yr Arglwydd dy Dduw' (Deuteronomium 8:18); 'A chofia yr holl ffordd yr arweiniodd yr Arglwydd dy Dduw di ynddi y deugain mlynedd hyn' (Deuteronomium 8:2). Ac y mae'r cofio hwn yn cyrraedd ei uchafbwynt yn y Cymun: 'Gwnewch hyn er coffa amdanaf.' Ond cofio inni gael ein cofio yw hwn oherwydd calon y cofio yw cofio'r cyfamod: 'Cofiwch yn dragywydd ei gyfamod' (1 Cronicl 16:15) ac yn y Cymun priodwyd y cofio â'r cyfamod newydd. Nid rhyfedd bod Iesu Grist yn pwysleisio mai un o gymwynasau'r Diddanydd fyddai sbarduno cof ei ddisgyblion (Ioan 14:26). A gwir y gair.

Yn ystod y canrifoedd bu Cristnogion yn pendilio rhwng dau eithaf. Ar y naill law, y mae'r cyfrinwyr yn sôn am suddo yng nghariad Duw. Ar y llaw arall (a dyma'r eithaf poblogaidd yng Nghymru yn awr), ceir y seciwlareiddio sy'n esbonio mai unig ystyr 'caru Duw' yw gwasanaethu dyn. Y mae'r naill eithaf yn tueddu i wneud caru Duw'n brofiad i'r ychydig ffodus sy'n gallu fforddio ymneilltuo o'r byd. Y mae'r eithaf arall yn tueddu i ysgaru'r byd oddi wrth Dduw trwy wneud Duw'n ffigur cymylog ac afreal. Ond y mae caru Duw'n golygu rhoi ei le arbennig iddo ar wahân i bopeth a wnawn i'n gilydd. Y mae i'r oedfa a'r weddi a'r emyn; y mae i'r man cyfarfod sanctaidd a'r dyddiau a'r oriau sanctaidd eu lle. Heb sôn am y myfyrdod personol hwnnw lle mae dyn am ennyd yn cefnu ar derfysgoedd daear ac yn ymlonyddu mewn cyfathrach bersonol â'i Dad nefol. Beth bynnag yw'r bywyd sy'n brin o'r elfen wefreiddiol hon, nid yw'n fywyd Cristnogol cyflawn.

Darlleniadau: Deuteronomium 8*;* Salmau 148, 150*;* Colosiaid 3:1–16.

Llyfrau:

Am y ddadl fawr ynglŷn ag 'agape' ac 'eros', gw. Anders Nygren, *Agape and Eros* (1932); Quell a Stauffer, *Love* (cyf. o eiriadur Kittel, 1949); Barth, *Church Dogmatics* IV/2, 741; de Rougement, *Passion and Society* (Faber); Martin D'Arcy, *The Lion and the Unicorn*; H. B. Parkes, *The Divine Society* (1970). Heb anghofio traethawd mawreddog Barth, 'Yr Ysbryd Glân a Chariad Cristionogol,' *Church Dogmatics*, IV/2, Para. 68.

Mae'r safbwynt sy'n uniaethu caru Duw â chyflawni dyletswyddau moesol yn mynd yn ôl i Kant, a ddadleuai nad yw Duw'n disgwyl inni gyflawni unrhyw 'ddyletswyddau llys' nac ymroi i 'gwrteisi crefyddol' tuag ato. Y mae holl ystyr 'caru Duw' i'w gael mewn caru cymydog. Ond nid dyma ddysgeidiaeth Iesu Grist. Gw. hefyd 'Cariad yr Ysbryd' (dienw), *Dysgedydd* (1914), 35–9; J. Davies (Llanelli), 'Yr Ysbryd Glân a'i Ddylanwadau,' *Dysgedydd* (1886), 205–211.

Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru: sylwadau Rheinallt Thomas wrth drosglwyddo'r llywyddiaeth

Rhaid dweud fy mod wedi mwynhau cyflawni'r swydd dros y pedair blynedd diwethaf a hyderaf fy mod wedi llwyddo, fel yr addewais ar y dechrau, i godi rhywfaint ar broffil y Cyngor. Mae'r cyfleoedd wedi bod yn amrywiol iawn, fel yr ydych wedi gweld wrth ddarllen y Digwyddiaduron sydd i'w gweld yn ein hadran arbennig ar wefan Cytûn. Hoffwn yn y fan hyn gydnabod yn ddiolchgar holl waith Helen, ein hysgrifenyddes gydwybodol, a'r cydweithio hapus fu rhyngom drwy'r cyfnod.

Mae sefydlu'r wefan wedi bod yn garreg filltir bwysig er sicrhau gwybodaeth am y Cyngor a'i weithgareddau a dangos amrediad helaeth ein cysylltiadau. Dymunaf yn dda i'm holynydd, y Parch Simon Walkling, yn ei dymor ef, a hyderaf y bydd Duw yn rhwydd iddo gyflawni ei oruchwyliaeth. Mae'r un dyhead gennyf y bydd Cyngor yr Eglwysi Rhyddion yn parhau yn gorff effeithiol i'r dyfodol ac y bydd bendith Duw ar ei holl weithgareddau.

Hoffwn yma ddiolch i bawb am bob cydweithrediad a gefais yn ystod y pedair blynedd a aeth heibio. Ymysg y rhai sydd wedi bod yn allweddol mewn ffyrdd hollol ymarferol yw'r Parch Aled Edwards, y Parch Gethin Rhys, Peredur Owen Griffiths a Sasha Perriam o Cytûn, ac rwy'n arbennig o diolchgar iddynt am bob cymorth. Rhaid llongyfarch Peredur ar gael ei ethol yn Aelod o Senedd Cymru erbyn hyn. Mae cyfraniad Gethin yn ystod y cyfnod clo yn darparu llu o adroddiadau a diweddariadau wedi bod yn orchestol, ac mae dyled fawr iddo a gwerthfawrogiad haeddiannol gan bawb.

Hoffwn gydnabod hefyd barodrwydd y Parch Peter Dewi Richards, fel cyn-lywydd, i ymateb i bob ymholiad oedd gennyf ac i Martin Spain am ei waith fel trysorydd. Y swyddog arall sydd wedi bod yn ddygn iawn ac yn arbennig o gydwybodol mewn cyfnod dyrys a heriol yw Vaughan, ein Hysgrifennydd Addysg, ac rwy'n hynod o ddiolchgar iddo. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r Dr Noel Davies am ein cynrychioli mewn dau ddigwyddiad gan Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI, drwy Zoom): cyfarfod o arweinwyr eglwysig ar 14 Hydref 2020 i drafod Brexit a Webair ar 28 Ebrill 2021 ar 'Yr eglwys, cenedligrwydd a hunaniaeth'. Yn olaf, gwelwn o adroddiad Gethin y bydd Aled Edwards yn ymddeol ddiwedd y flwyddyn. Mae Aled wedi bod yn unigolyn allweddol ers blynyddoedd lawer yn ymwneud â materion cydenwadol a chydgrefyddol, ac ni ellir mesur ei ddylanwad. Diolch i Aled am bopeth a wnaeth drosom i gyd am gyfnod helaeth o amser. Diolch personol hefyd am bob cydweithrediad fu dros y pedair blynedd diwethaf.

Ysgrifennais erthygl ar gyfer y Pasg i *Cenn@d* oedd yn gorffen â'r paragraff a ganlyn:

> Mae cyfle gwych i ni ddod at ein gilydd fel enwadau i gydaddoli, i ddefnyddio ein hadnoddau dynol a'n hadeiladau yn llawer mwy effeithiol ar y cyd. Beth am werthu pob capel ond un mewn gofalaeth/cylch a chael hwnnw ar gyfer yr ardal, a newid y gweddill yn fflatiau/tai ar gyfer eu gosod/gwerthu i bobl ifanc y cylch? Mae llawer o bosibiliadau. Ewch ati yn llawn gobaith i feddwl ac i drefnu.

Ni allaf feddwl am eiriau gwell ychwaith i orffen fy adroddiad olaf fel Llywydd, gan hyderu y bydd yn dwyn ffrwyth. Hoffwn ddymuno pob bendith ar waith y Cyngor i'r dyfodol gan fynegi fy niolch diffuant am y fraint a roddwyd i mi i weithredu fel Llywydd.

Y diwedd, y dechrau a bywyd Dewis y gwir neu'r gau

Y mae hanes yn ei gyfanrwydd yn culhau hyd at yr un pwnc hwn – gwaredigaeth yn Iesu, neu'r cynnig o ffug waredigaeth mewn rhyw enw, neu gyfundrefn arall, neu ryw raglen arall. Y mater terfynol yw hyn: Crist neu Anghrist. Caiff yr holl genhedloedd eu tywys at y dewis hwn.

Lesslie Newbigin

LLUN: https://unsplash.com/photos/tCBgouVMm9Y

Sul, 11 Gorffennaf – *Caniadaeth y Cysegr*, 7:30yb a 4:30yp
R Alun Evans sy'n parhau â'r gyfres yn trafod themâu gwahanol y ffydd yn ein hemynau. 'Iachawdwriaeth' sydd dan sylw ganddo y Sul hwn.

Sul, 11 Gorffennaf – *Oedfa Radio Cymru*, 12:00yp
Yng ngofal Eifion Perkins, Pontarddulais

Dyma gyfarfod hyfryd iawn
Bendith

Emyn 102 – 'Fy enaid, bendithia yr Arglwydd'

Darlleniad 1 – Salm 24

Gweddi

Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, gwn nad yw fy nwylo'n lân, na'm calon yn bur; gwn hefyd fod fy nghalon yn fy nhwyllo yn aml, ac nad yw'r gwir bob amser yn fy ngenau. Ond mae'r dymuniad sydd ynof i nesáu atat yn arwydd dy fod yn fy nenu atat dy hun. Felly, gan gyffesu fy meiau aml, rwy'n dewis dweud: 'Dy wyneb, o Dduw, a geisiaf'. Golch fi yn burlan yn haeddiant dy annwyl Fab Iesu, a derbyn fi dan dy fendith, trwy dy ras a ffydd ynddo ef yn unig. Amen.

Darlleniad 2 – Effesiaid 1:3–14
Bendithion Ysbrydol yng Nghrist

Myfyrdod

'Berakah' – Bendith

Tybed pa ddefnydd o'r gair bendith yw'r cyntaf a ddaw i'ch meddwl chi?

Ai 'gras bwyd' – gweddi cyn pryd o fwyd? Gan mor gyflym y parablu fe gymerodd flynyddoedd i mi ddeall yn iawn beth oedd fy nhaid yn ei ddweud wrth blygu ei ben cyn bwyta: 'Bendithia'n bwyd i'n cadw yn fyw i'th wasanaethu di. Amen.'

Ai datganiad i'w chyhoeddi neu ei chydadrodd ar ddiwedd oedfa yw'r 'fendith'?

Ai cyflwr gwynfydedig, neu o ddedwyddwch y mae'n arfer da i ni ddiolch amdano?

Ai ffafr rydym yn ei derbyn neu ei rhoi?

Thema gyson

Fe wyddom fod rhyw rinwedd ysbrydol yn perthyn i fendith, ond mater arall yw ei disgrifio'n iawn. Dwi'n amau ei fod wedi mynd yn air nad ydym yn meddwl ryw lawer beth yw ei ystyr bellach. Ond dyma un o brif themâu'r Beibl, o'r dudalen gyntaf i'r olaf. Yn hanes y creu cawn Dduw yn bendithio creaduriaid y môr a'r awyr, cyn cyhoeddi bendith ar ei lun a'i ddelw ei hun, yn wryw a benyw fel y creodd hwy (Genesis 1:20–2, 26–31). Yna, yn ei ymwneud ag Abraham a'i linach, fe welwn fod bendith, byw ynddi a'i hetifeddu yn greiddiol i ddeall yr hanes.

Yn ei esboniad ar Genesis mae Bruce Waltke yn dweud hyn am 'fendith': 'Blessing is God's gift of potency and power … Blessing enables God's creatures to fulfil their nature and to live in their element' (Genesis 1:22, 28 – *Genesis: a Commentary*, Bruce K Waltke with Cathi J Fredricks; Zondervan).

Bendith a melltith

Bendith Duw yw'r hyn sy'n ein galluogi i gyflawni ein natur a byw bywyd i'w holl gyflawnder. Os gallwn gael gafael ar yr ystyr yma, mae'n bwrw golau eglur ar beth hefyd yw byw tu allan i'w fendith, megis Adda ac Efa yn gadael Eden. Nid yw'n naid fawr i ddeall mai'r gair croes i fendith yw melltith, sy'n dwyn i gof y dewis osododd Moses o flaen pobl Dduw: 'Yr wyf yn galw'r nef a'r ddaear yn dystion yn dy erbyn heddiw, imi roi'r dewis iti rhwng bywyd ac angau, rhwng bendith a melltith. Dewis dithau fywyd, er mwyn iti fyw, tydi a'th ddisgynyddion.' (Deuteronomium 30:19)

Beth welwn ar dudalennau'r Hen Destament yw nad ydym fel dynoliaeth, hyd yn oed ar ein gorau, yn medru caru Duw a chadw ei holl orchmynion, ac felly byw dan ei fendith Ef.

Bendith driphlyg

Gyda hyn mewn golwg, down at newyddion syfrdanol Paul i'r Effesiaid, a thrwy'r canrifoedd i ni. Mewn adran hynod o bwerus a thelynegol mae'r apostol yn dadlennu'r ffasiwn fendith sydd i ni sy'n credu, drwy'r Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân: 'Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist! Y mae wedi'n bendithio ni yng Nghrist â phob bendith ysbrydol yn y nefolion leoedd.' (1:3)

Yn rhad, o'i gariad a'i wirfodd, mae Duw y Tad wedi ein dwyn i mewn i gyflwr o fendith dragwyddol yn ei Fab, Crist Iesu! Fe welwn drwy weddill y llythyr nad ydym yn haeddu nac yn cyfrannu dim i ddyfod o dan ei fendith – mae'r cyfan ohono Ef. Ac mae'r fendith yma i'n galluogi ni i gyflawni ein natur newydd yng Nghrist a byw yn gyflawn ynddo ef.

Mae'r adran yma mor gyforiog o wirioneddau! Mae'n rhwydd gadael iddynt olchi drosom, megis tonnau, heb i ni fedru dal gafael ynddynt. Arhoswch ennyd, estynnwch bapur a phensil, rhai lliw os oes gennych rai, ac ewch drwy'r adnodau gan sylwi a nodi'r patrymau geiriol. Os gallwch argraffu'r adnodau ar bapur, mae tanlinellu mewn gwahanol liwiau yn gweithio'n dda.

Disgrifir yma y fendith driphlyg a dywelltir mor hael arnom. Nodwch yn arbennig waith y Tad; y Mab, Iesu Grist; a'r Ysbryd Glân.

Mae'r Tad yn ein dewis a'n rhagordeinio; Crist yn cyflawni'r bwriad ac yn ein prynu'n rhydd (a thanlinellir hynny drwy'r ymadrodd 'yn ôl ei fwriad a'i ewyllys'); a'r Ysbryd yw'r ernes a gweithrediad y cyfan ynom ni. Ar ddiwedd pob rhan mae Paul yn datgan bod y cyfan yn ei dro, 'er clod i'w gogoniant'.

Canolbwynt

Ceir y ffwlcrwm yn adn.12 pryd y symudwn o'i waith ef drosom i'r fendith yr ydym i'w byw. Mae Paul yn datgan mai 'trwy hyn yr ydym ni', a ragordeiniwyd ac a fabwysiadwyd gan y Tad, i fod yn sanctaidd a di-fai ger ei fron mewn cariad. A ninnau wedi ein prynu trwy waed Crist yr Anwylyd, ein camwedd wedi ei faddau, wedi derbyn etifeddiaeth yn ôl ei fwriad a'i ewyllys ei hun, yr ydym i obeithio ynddo fel bydd ein bywyd yn dwyn clod i'w ogoniant ef.

I'r diben hwn fe dderbyniwn sêl yr Ysbryd Sanctaidd, ein hernes o'i addewid y bydd Duw yn cyflawni'r gwaith a ddechreuwyd ynom. Mae Efengyl ein hiachawdwriaeth yn waith gorffenedig o safbwynt Duw, ond yn cael ei weithredu'n barhaus ynom ni sydd wedi clywed gair y gwirionedd, a chredu yng Nghrist, hyd gyflawniad yr amseroedd pryd y dygir pob peth i undod ynddo ef. A'r oll yn rhodd rad, yn helaeth o'i gariad, ei ras, ei ddoethineb a'i ddirnadaeth i ni yng Nghrist.

Y fendith mae'r Tad wedi ei bwriadu ac Iesu wedi ei sicrhau i ni rydym ninnau i fyw ynddi drwy ei rodd o'i Ysbryd ynom.

Gweddi

Agor fy llygaid, o Dad, i adnabod dy fendithion ysbrydol i mi yng Nghrist. Dysg imi fyw ynddynt drwy ffydd. Dyro ddiolch yn fy enaid, fel y byddo fy nghân yn un o fawl i ti. Tyrd, Ysbryd Glân, fel y gallaf gerdded yn dy oleuni. Amen.

Emyn 22 – 'Dan dy fendith wrth ymadael'

Hywel Rhys Edwards
Y Parc

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru